Cyfranogiad pobl ifanc mewn gwneud penderfyniadau

2005-2006

Estyn
Rhagoriaeth i bawb.....Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw gwella ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i'r Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2006: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	**Tudalen**

Cyflwyniad **1**

1 Diben 1
2 Cwmpas 1
3 Diffiniad 1
4 Cefndir 1
5 Sail dystiolaeth 2

Prif ganfyddiadau **3**

Argymhellion **5**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru 5
Dylai darparwyr 5

Cyflawniad pobl ifanc **7**

Effeithiolrwydd gwaith gyda phobl ifanc ac asesu **9**

Pa mor dda mae profiadau dysgu yn bodloni anghenion pobl ifanc a'r gymuned ehangach **10**

Y gofal, yr arweiniad a'r cymorth i bobl ifanc **12**

Effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth **13**

Effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr wrth arfarnu a gwella ansawdd a safonau **16**

Effeithiolrwydd rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau **18**

Atodiad 1: Hawliau **20**

Addysg, hyfforddiant, profiad gwaith 20
Mynediad i Fedrau Sylfaenol 21
Y potensial i fod yn ddinasyddion gweithgar 21
Gwasanaethau a chyfleusterau hygyrch ac o ansawdd uchel 21
Arweiniad ar yrfa 22
Cymorth a chyngor personol 22
Gwybodaeth am faterion fel iechyd a thai 23
Gweithgareddau hamdden a chymdeithasol 23
Profiadau chwaraeon, artistig ac awyr agored 24
Yr hawl i gael mynegi barn 24

Atodiad 2: Arfer dda **26**

Ymagwedd ysgol gyfan at gyfranogiad 26

Llais y Dysgwr/The Voice of the Learner 26
Llwybrau 14-19 – Ymgynghoriad ar arddulliau dysgu 27
Clwb Ffermwyr Ifanc (CFfI) a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu 27
System Asesu ar gyfer Timau Gwasanaethau Ieuenctid (ASSYST) 27
Etholiadau cyngor yr ysgol 28
Grŵp cymorth i bobl ifanc â Diabetes 28
Cyngor Ieuenctid 28
Modelu 29
Cylchlythyr 29
Chwaraeon a phobl ifanc anabl 30

Cyflwyniad

1 Diben

1 Diben y cyngor hwn yw:

- nodi, dadansoddi ac arfarnu'r systemau a'r cyfleoedd sydd gan ddarparwyr i reoli cyfranogiad pobl ifanc yn y gwasanaethau a ddarparant; ac
- adolygu'r modd y mae pobl ifanc yn ymateb i gyfleoedd i gyfranogi mewn ystod o wasanaethau.

2 Cwmpas

2 Edrychodd arolygwyr ar y graddau y mae pobl ifanc 11-25 oed yn cael cyfleoedd i gyfranogi'n ystyrlon mewn gwneud penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau. Canolbwyntiodd arolygwyr yn benodol ar agweddau ar weithgarwch y mae gan awdurdodau lleol ac ysgolion reolaeth uniongyrchol drostynt, neu'r gallu i ddylanwadu ar bartneriaid.

3 Mae'r cyngor yn cynnwys barnau am gymhwyso polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymarferol. Gwna argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynorthwyo â chynllunio yn y dyfodol, penderfyniadau polisi ac i gyfrannu at y weledigaeth a amlinellir yn Y Wlad Sy'n Dysgu[1] ac Ymestyn Hawliau.

4 Mae'r cyngor yn rhoi golwg o'r hyn sy'n mynd ymlaen ar hyd a lled Cymru. Bydd hyn yn gymorth i ddarparwyr ac ymarferwyr i gynllunio gweithredu yn y dyfodol o fewn eu sefydliadau eu hunain ac i sicrhau bod pobl ifanc yn cael profiad o wasanaethau mwy ymatebol a chyfranogol.

3 Diffiniad

5 Y diffiniad o gyfranogiad sy'n cael ei ddefnyddio gan arolygwyr yn y cyngor hwn yw: 'Mae cyfranogiad yn golygu bod gen i'r hawl i gymryd rhan yn y penderfyniadau, y cynllunio a'r adolygu sy'n ymwneud â gweithredu a allai effeithio arnaf i. Bod â llais, bod â dewis'[2].

4 Cefndir

6 Fel rhan o'i gylch gwaith ar gyfer 2005-2006, gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i Estyn roi cyngor ar y graddau y mae pobl ifanc yn cyfranogi mewn penderfyniadau am faterion sy'n effeithio ar eu bywydau.

[1] Y Wlad Sy'n Dysgu: Rhaglen Gynhwysfawr o Addysg a Dysgu Gydol Oes hyd at 2010 yng Nghymru. 2001.

[2] Hwn oedd y slogan buddugol mewn cystadleuaeth i bobl ifanc gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

7 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn amlinellu ei hymrwymiad i gyfranogiad plant a phobl ifanc yn ei thair dogfen allweddol:

- Plant a Phobl Ifanc: Fframwaith ar gyfer Partneriaeth;
- Ymestyn Hawliau: Cefnogi Pobl Ifanc yng Nghymru; a
- Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau.

8 Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi arweiniad drafft ar Ddeddf Plant 2004 sydd hefyd yn nodi pwysigrwydd Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) sy'n nodi hawliau plant a phobl ifanc i gyfranogi.

9 Nod Adran 176 Deddf Addysg 2002 yw annog mwy o gyfranogiad gan blant mewn penderfyniadau yn yr ysgolion. Mae'n pennu dyletswydd ar awdurdodau addysg lleol a chyrff llywodraethol i ymgynghori â disgyblion ysgol wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

10 Mae Rheoliadau Cynghorau Ysgolion (Cymru) 2005 yn amlinellu bod rhaid i gorff llywodraethol ysgol sefydlu cyngor ysgol, fel bod disgyblion yn gallu trafod materion sy'n ymwneud â'u hysgol, eu haddysg a materion eraill o bwys.

5 Sail dystiolaeth

11 Mae'r sail dystiolaeth yn cynnwys:

- tystiolaeth arolygu Estyn ar gyfer y flwyddyn 2005-2006 o bob sector sy'n darparu gwasanaethau i bobl ifanc 11-25 oed; ac
- ymweliadau gan arolygwyr â phedair ardal awdurdod lleol a ddewiswyd.

12 Ymwelodd arolygwyr ag ardaloedd awdurdodau lleol Ceredigion, Merthyr, Wrecsam a Phen-y-bont ar Ogwr. Buont yn cyfweld staff a rheolwyr; adolygwyd dogfennau strategol a chynllunio ganddynt; a buont yn cynnal trafodaethau â phobl ifanc.

Prif ganfyddiadau

13 Bu cynnydd sylweddol mewn ymwybyddiaeth o'r agenda cyfranogiad gan reolwyr a staff ar draws gwasanaethau cymorth ieuenctid dros y ddwy flynedd diwethaf. Mewn llawer o achosion, y rheswm am hyn yw cymhelliant polisi cenedlaethol fel datblygiad Partneriaethau Pobl Ifanc[3], yr agenda hawliau, Draig Ffynci[4] a'r gofyniad i sefydlu cynghorau ysgol.

14 Teimla llawer o bobl ifanc y gwrandewir arnynt mewn ysgolion. Yn bennaf, trwy ymwneud â chynghorau ysgol y digwydd hyn. Yn yr achosion gorau, mae pobl ifanc yn gysylltiedig â datblygiadau ysgol gyfan i gynyddu cyfranogiad, a chymerant ran yn natblygiad polisïau addysgu a dysgu arloesol.

15 Mae llawer o bobl ifanc, yn enwedig y rheiny mewn prosiectau arbenigol, yn datblygu lefelau uchel o fedrau personol a chymdeithasol. Mae'r medrau hyn yn eu galluogi i chwarae rhan lawn mewn ystod eang o ddigwyddiadau a phrosesau ymgynghori, ar lefel leol a chenedlaethol.

16 Mae pobl ifanc yn cael cyfleoedd cyson i adeiladu ar y profiadau a'r medrau a gânt drwy gyfranogiad. Datblygant fedrau defnyddiol a dônt yn staff, yn aelodau uwch neu'n wirfoddolwyr o fewn y sefydliad y maent yn mynd yn gysylltiedig ag ef. Mae enghreifftiau da o hyn yng ngwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol, timau troseddau ieuenctid a thimau gadael gofal.

17 Yn aml mae cyfranogiad wrth wraidd ethos prosiectau arbenigol, wedi'u targedu. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys grwpiau bach o bobl ifanc sy'n agored i niwed yn aml. Mae'r prosiectau yn rhoi lefelau uchel o gymorth fel bod modd i bobl ifanc gymryd rhan yn effeithiol mewn gweithgareddau ymgynghori.

18 Mewn lleiafrif o achosion, mae cyfranogiad a chysylltiad pobl ifanc yn cael dylanwad uniongyrchol ar gyfeiriad gwasanaethau a strategaethau lleol a chenedlaethol allweddol.

19 Mae Draig Ffynci yn targedu'r bobl ifanc anoddaf i'w cyrraedd, ac mae'n eu hannog i gyfranogi'n effeithiol.

20 Mae pobl ifanc yn chwarae rhan mewn gwneud penderfyniadau mewn ffyrdd gwahanol a thrwy ystod eang o sefydliadau. Yn yr achosion gorau, mae staff yn defnyddio dulliau creadigol i adeiladu brwdfrydedd, medrau a diddordeb pobl ifanc mewn cyfranogiad.

21 Gan amlaf, mae pobl ifanc, staff a rheolwyr yn ymrwymedig iawn i ymgynghori a chyfranogiad gwybodus. Yn aml mae gweithgareddau cyfranogiad yn cael eu cychwyn gan staff ac fe'u rhennir gyda rhai pobl ifanc.

[3] Partneriaethau Pobl Ifanc (PPI). Nod Partneriaethau Pobl Ifanc yw sicrhau trefniant effeithiol gwasanaethau cymorth ieuenctid mewn ardal awdurdod lleol.

[4] Draig Ffynci. Y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru.

22 At ei gilydd, nid yw darparwyr yn cynllunio'n strategol i gynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau. Felly, nid yw cysylltiad pobl ifanc yn cael ei reoli'n dda yn aml ar lefel uwch.

23 Nifer fach o bobl ifanc sy'n pennu'r agenda ac yn dangos medrau lefel uwch. Yn aml, nid yw staff yn herio pobl ifanc yn ddigonol i ymestyn eu medrau a'u gallu i arwain cyfarfodydd a phennu agendâu.

24 Nid yw llawer o ddarparwyr yn rhannu gwybodaeth am gyfranogiad pobl ifanc yn ddigon da â'i gilydd. Golyga hyn nad oes ymagwedd gydgysylltiedig i ddarparu cyfranogiad lefel uchel gwir effeithiol ar waith.

25 Nid oes gan ddarparwyr ffyrdd cadarn o arfarnu effeithiolrwydd neu effaith cyfranogiad. Felly mae darparwyr a phobl ifanc yn aneglur ynghylch gwerth cael pobl ifanc i fod yn rhan o benderfyniadau.

26 Wrth gasglu gwybodaeth gan bobl ifanc, nid yw darparwyr yn ei defnyddio'n dda bob tro i ymateb i anghenion pobl ifanc neu i wella gwasanaethau. Mae grwpiau o bobl ifanc anodd eu cyrraedd yn gyson heb fod yn gysylltiedig â gweithgareddau ymgynghori a chyfranogi. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys pobl ifanc yn y gymuned deithio, pobl ifanc ddigartref a phobl ifanc anabl.

27 Ychydig o gyfleoedd sydd i'r rheini sy'n defnyddio'r Gymraeg fel eu hiaith ddewisol i gyfranogi mewn penderfyniadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

28 Nid oes gan hanner yr awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw fforwm ieuenctid neu gyngor ieuenctid sefydledig ar draws yr awdurdod.

29 Mae medrau a gwybodaeth staff am gyfranogiad pobl ifanc yn rhy amrywiol ar draws Cymru. Nid yw'r hyfforddiant mewn cyfranogiad sy'n cael ei gynnig ar hyd a lled Cymru yn cael ei gydgysylltu na'i safoni gan ddarparwyr. Felly, nid yw staff yn darparu moddau effeithiol o hyd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori neu gyfranogi neu i ddatblygu medrau a gwybodaeth.

30 Nid yw pobl ifanc wedi datblygu'r medrau, y wybodaeth na'r hyder eto i fynnu bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

31 Ychydig gysylltiad, os o gwbl, sydd â'r broses gwneud penderfyniadau mewn rhai lleoliadau. Mae'r lleoliadau hyn yn cynnwys llawer o glybiau ieuenctid y sector statudol, clybiau a gweithgareddau sy'n cael eu rheoli gan gymdeithasau ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol a nifer fach o ysgolion.

32 Ychydig iawn o gyfranogiad mewn penderfyniadau sydd ymhlith y grŵp oed 16-25.

33 Nid yw staff bob amser yn deall eu cyfrifoldebau i annog cyfranogiad.

Argymhellion

34 Er mwyn gwella cyfranogiad gan bobl ifanc, mae angen cymryd y camau canlynol.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A1 ddarparu cymorth a chyngor lefel strategol ar gyfranogiad i uwch arweinwyr a darparwyr ar draws sectorau. Dylai'r cymorth a'r cyngor hwn gynnwys ystod eang o ddulliau a phrosesau cyfranogi, yn hytrach na chanolbwyntio ar fforymau ieuenctid neu gynghorau ysgol;

A2 ariannu gwella systemau ar gyfer cyfranogiad drwy fuddsoddi mewn datblygu adnoddau, hyfforddiant a systemau yn hytrach na chyflogi gweithwyr yn unig;

A3 ystyried pa un a yw'n briodol neu beidio i ddefnyddio pwerau cyfreithiol i atgyfnerthu datblygu'r agenda cyfranogiad mewn sectorau heblaw am ysgolion. Mae Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 wedi galluogi'r agenda cyfranogiad i wneud cynnydd a chael cymorth yn gyflym mewn ysgolion;

A4 gwneud cyfranogiad gan bobl ifanc yn amod derbyn nawdd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru os yw'r arian yn effeithio ar fywydau pobl ifanc. Dylai hyn rychwantu holl adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru;

A5 parhau i dynnu ar yr arbenigedd sydd ar gael o Draig Ffynci i lywio'r strategaeth gynllunio. Yn benodol, sylwer ar y prosiect diddordeb penodol diweddar i ddatblygu cyngor ar weithio gyda'r rheini sy'n anodd eu cyrraedd;

A6 sefydlu strategaeth i rannu arfer dda mewn cyfranogiad ar draws darparwyr ac ar draws adrannau yn Llywodraeth Cynulliad Cymru;

A7 pennu gofyniad bod partneriaethau pobl ifanc yn sefydlu strategaethau i gynorthwyo pobl ifanc i fod â rhan mewn rhedeg y bartneriaeth ac mewn penderfyniadau; a

A8 datblygu hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer y rheiny sy'n gweithio gyda phobl ifanc, gan gynnwys gweithwyr ieuenctid, athrawon a gweithwyr Timau Troseddau Ieuenctid i wella'u medrau a'u gwybodaeth am gynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau.

Dylai darparwyr:

A9 ddatblygu Strategaeth Cyfranogiad Pobl Ifanc sydd dan berchenogaeth yr holl reolwyr, staff a phobl ifanc;

A10 sicrhau bod yr holl staff sy'n gyfrifol am gyfranogiad pobl ifanc wedi cael hyfforddiant addas a bod ganddynt y wybodaeth a'r medrau gofynnol i ymgymryd â'r dasg;

A11 integreiddio cyfranogiad pobl ifanc â gwaith craidd y sefydliad;

A12 gwneud yn siwr bod staff yn deall bod pawb yn gyfrifol am gynllunio cyfranogiad pobl ifanc ym mhob agwedd ar wasanaethau cymorth ieuenctid. Datblygu dealltwriaeth gan reolwyr a staff bod y broses o gynnwys pobl ifanc yn ehangach o lawer na fforymau neu gynghorau;

A13 defnyddio ystod o ffyrdd o wrando ar bobl ifanc, fel bod y dulliau a ddefnyddir yn addas i'r pwrpas ac yn addas ar gyfer y grŵp targed;

A14 sicrhau bod pobl ifanc yn gysylltiedig yn gyson â'r holl weithgareddau mewn sefydliad, a'u bod yn cael adborth gan staff sy'n gweithio gyda hwy;

A15 nodi grwpiau o bobl ifanc nad ydynt yn cyfranogi mewn penderfyniadau, a chymryd camau priodol i'w cynnwys;

A16 cynyddu gallu darparwyr a staff i gyflawni'r agenda cyfranogiad;

A17 gwneud yn siwr bod pobl ifanc yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn sefydliadau ac yn eu cymunedau, a'u bod yn rhan o benderfyniadau ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau; a

A18 gwneud yn siwr bod pobl ifanc yn ymwybodol o'u hawliau i'r 10 Hawl.

Cyflawniad pobl ifanc

35 At ei gilydd, mae pobl ifanc yn cyflawni'n dda pan gânt eu hannog i gyfranogi mewn penderfyniadau. Mae'r bobl ifanc hyn yn datblygu ystod eang o fedrau a gwybodaeth. Mae eu medrau cynyddol yn gwella'u gallu i fod yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau. Mae'r medrau hyn yn cynnwys gwrando, cyd-drafod a chyfathrebu ag oedolion, medrau cyfrifiadur, cyd-drafod a chyllidebu. Mae llawer o bobl ifanc yn datblygu medrau allweddol drwy'r gwaith a wnânt pan gymerant ran mewn gweithgareddau cyfranogiad mewn ysgolion. Dysgant sut i wneud penderfyniadau anodd a sut i herio penderfyniadau'n briodol. O ganlyniad, gall llawer o bobl ifanc esbonio'r hyn a ddysgant drwy fod â rhan weithgar mewn prosiectau cyfranogiad. Yn aml symudant ymlaen i ddatblygu medrau ehangach ac i fanteisio ar gyfleoedd pellach.

36 Ar hyd a lled Cymru, mae pobl ifanc yn cael profiadau gwerthfawr drwy ystod o weithgareddau cyfranogiad. Fodd bynnag, nid ydynt yn gallu barnu pa mor effeithiol yw'r cyfleoedd hyn o ran eu helpu i ddysgu a chael profiad.

37 Dros y tair blynedd diwethaf, mae gan bobl ifanc sy'n trosglwyddo o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd fedrau da sy'n eu helpu i gymryd rhan mewn penderfyniadau. Yn yr enghreifftiau gorau, mae gweithgareddau amser cylch, cynghorau ysgol a ffocws ar gyfranogiad mewn addysgu a dysgu mewn ysgolion cynradd yn rhoi'r medrau gwneud penderfyniadau i bobl ifanc y mae arnynt eu hangen mewn ysgolion uwchradd. Mae gan ddisgyblion iau felly fwy o fedrau a hyder cynyddol i fod yn rhan o benderfyniadau. Mae pobl ifanc sydd wedi dysgu medrau ymarferol trwy gyfranogiad:

- yn cymryd mwy o ran mewn trafodaethau yn yr ystafell ddosbarth;
- yn ymwneud mwy â gweithgareddau y tu allan i'r ysgol; ac
- yn ymwneud fwy fyth â gweithgareddau yn yr ysgol.

38 Yn yr enghreifftiau gorau, mae pobl ifanc sy'n gysylltiedig â chynghorau ysgol yn datblygu lefel uchel o fedrau cyfranogi. Yn yr enghreifftiau hyn mae pobl ifanc:

- yn pennu'r agenda;
- yn datblygu medrau cyfweld ac yn chwarae rhan wrth recriwtio staff; ac
- yn gweithio'n effeithiol ag athrawon ac yn gweithio i gontractau sy'n amlinellu'u rolau a'u cyfrifoldebau o fewn y grŵp.

39 Fodd bynnag, mewn rhai achosion lle nad yw ysgolion wedi ymrwymo'n llawn i ddatblygu'r medrau gwneud penderfyniadau y mae eu hangen ar bobl ifanc, mae'r bobl ifanc yn parhau i fod yn anghymwys iawn i gyfranogi. Nid yw'r medrau a'r wybodaeth angenrheidiol gan y bobl ifanc hyn i gymryd rhan lawn mewn proses gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

40 Mae pobl ifanc yn ymateb yn dda ac yn datblygu medrau gwneud penderfyniadau da lle mae gan sefydliadau systemau a strwythurau ar waith i'w cefnogi. Er enghraifft, mae pobl ifanc sy'n rhan o'r Clybiau Ffermwyr Ifanc (CFfI) yn dangos hyder cynyddol a gânt o roi eu syniadau ar brawf mewn amgylchedd diogel a chefnogol ar lefel leol.

41 Fodd bynnag, nid yw llawer o sefydliadau wedi datblygu trefniadau i gynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau nac wedi cynllunio i adeiladu ar eu medrau yn gynyddol. Yn y sefydliadau hyn mae pobl ifanc yn parhau'n or-ddibynnol ar oedolion i arwain, ac maent yn araf i ddatblygu'u medrau gwneud penderfyniadau eu hunain.

42 Mae tua hanner yr awdurdodau lleol yr ymwelwyd â hwy wedi datblygu fforymau neu gynghorau ieuenctid ledled y sir. Yn y grwpiau hyn, mae pobl ifanc yn dangos lefelau uchel o fedr wrth ymateb i ymarferion ymgynghori lleol a chenedlaethol. Maent yn hyderus a dangosant fedrau cyflwyno, gwrando, cyd-drafod a threfnu da. Mae rhai pobl ifanc yn dylanwadu ar reolwyr a chynghorwyr yn lleol, ac yn cael dylanwad cadarnhaol ar broffil pobl ifanc yn eu hardal. Fodd bynnag, yn aml, mae pobl ifanc yn y fforymau ieuenctid yn cael trafferth o ran datblygu'r medrau y mae eu hangen arnynt i gadeirio, trefnu ac arwain grwpiau.

Effeithiolrwydd gwaith gyda phobl ifanc ac asesu

43 Mae rhan fwyaf y staff yn dangos lefelau uchel o ymrwymiad i gyfranogiad ac i'r bobl ifanc y maent yn eu harwain drwy'r broses gwneud penderfyniadau. Mae'r staff hyn yn cynnwys pobl ifanc yn llawn yn y prosesau cynllunio, adolygu ac arfarnu. Yn yr achosion gorau, mae gan staff ddealltwriaeth dda o gyfraniad cyfranogiad at fentrau cenedlaethol. Hefyd, mae staff yn ymateb yn weithredol i ddatblygiadau cenedlaethol a phrosesau ymgynghori. Fodd bynnag, mae gormod o staff nad ydynt yn ymwybodol o bwysigrwydd cyfranogiad yn agenda polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru, na'r modd y mae eu gwaith yn cysylltu â'r agenda hon. Roedd staff mewn un sefydliad lleol y sector gwirfoddol wedi cael budd o fod wedi mynychu cwrs hyfforddi rheolwyr a gododd ymwybyddiaeth o Ymestyn Hawliau, cyfranogiad a phrosesau hunanarfarnu. Roedd yr hyfforddiant hwn yn gymorth i staff i roi'r agenda polisïau a chyfranogiad pobl ifanc mewn cyd-destun gyda'i gilydd.

44 Mae llawer o staff, mewn amrywiaeth o leoliadau addysg, fel y Gwasanaeth Ieuenctid ac ysgolion, yn cydnabod buddion cynnwys pobl ifanc. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwybod sut i roi cyfranogiad ar waith o hyd mewn addysgu a dysgu. Nid yw staff mewn sefydliadau ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol ac yn y Gwasanaeth Ieuenctid rhan-amser yn deall cyfranogiad fel egwyddor graidd o hyd. Mae'r diffyg gwybodaeth, medrau a phrofiad felly'n golygu nad yw'r staff hyn yn gallu rhoi strwythurau addas ar waith i gynorthwyo cyfranogiad pobl ifanc.

45 Mae llawer o staff yn dylunio ac yn cyflwyno gweithgareddau cyfranogi priodol a deniadol, ac mae pobl ifanc yn ymateb yn dda. Serch hynny, mae staff yn aml yn dibynnu ar ddod â phobl ifanc ynghyd i gael eu barn. Nid ydynt yn meddwl am ffyrdd eraill i ymgynghori â hwy nac o gael eu barn. Nid yw lleiafrif o staff ar draws yr ystod gwasanaethau cymorth ieuenctid yn deall eu rôl yn annog cyfranogiad pobl ifanc. Yn aml, nid yw'r staff hyn yn gweld bod ganddynt rôl bwysig i'w chwarae i ddatblygu medrau cyfranogi pobl ifanc. Maent o'r farn mai cyfrifoldeb rhywun arall yw hwn yn hytrach na rhan annatod o'u gwaith eu hunain.

Pa mor dda mae profiadau dysgu yn bodloni anghenion pobl ifanc a'r gymuned ehangach

46 Mae llawer o bobl ifanc yn cael profiadau dysgu cadarnhaol sy'n bodloni'u hanghenion trwy fod yn rhan o gyfranogiad. Mae pobl ifanc yn cyfranogi ac yn dylanwadu ar wneud penderfyniadau mewn llawer o ffyrdd a lleoliadau. Gan amlaf, mae pobl ifanc yn dysgu medrau gwerthfawr y gallant fynd â hwy yn ôl i'w cymunedau amrywiol. Mae'r medrau hyn yn cynnwys gweithio mewn timau, cwrdd â therfynau amser a gweithio gydag oedolion.

47 Mae sawl partneriaeth yn y gymuned yn ymgynghori â phobl ifanc yng nghyd-destun eu cymuned. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn gwneud hyn yn dda mewn nifer o ardaloedd awdurdodau lleol. Golyga hyn bod pobl ifanc yn datblygu medrau dinasyddiaeth ac yn cael y cyfle i'w rhoi ar waith. Nid yw partneriaethau cymunedol bob tro'n ystyried ffyrdd y gellir galluogi pobl ifanc i gymryd rhan yng nghynlluniau strategol y partneriaethau. Mae sefydliadau unigol yn aml yn gweithio'n agos gyda phobl ifanc a byddant yn gwrando ar eu barnau. Fodd bynnag, nid yw'r barnau hyn yn cael eu cynnwys yn gyson mewn cynlluniau ehangach fel y cynllun Partneriaethau Pobl Ifanc, y cynllun 14-19, cynllun y Partneriaethau Trosedd ac Anhrefn neu'r Cynllun Strategol Addysg.

48 At ei gilydd, mae pobl ifanc sy'n cael eu haddysgu mewn lleoliadau y tu allan i'r ysgol yn cael mwy o ddylanwad ar eu cwricwlwm ac ar agweddau ehangach ar eu haddysg na'r rheini mewn ysgolion uwchradd. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae'r bobl ifanc hyn yn cael cyfleoedd hefyd i ddweud wrth y Partneriaethau Pobl Ifanc ac AALlau am effaith y prosiectau ar eu mynediad i addysg. Mae'r bobl ifanc yn cael y cyfle i esbonio cryfderau cyfranogiad i arweinwyr a rheolwyr. Fodd bynnag, nid felly y mae bob tro. Lle nad yw Partneriaethau Pobl Ifanc a mecanweithiau ymgynghori awdurdodau lleol wedi'u sefydlu'n dda, nid yw'r bobl ifanc yn cael y cyfle i wneud penderfyniadau ystyrlon ynghylch materion pwysig a'u cyfleu i'r rheiny sy'n cynllunio a chyflwyno gwasanaethau iddynt. Er enghraifft, mae pobl ifanc mewn Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) yn gysylltiedig â dewis eu profiad dysgu cadarnhaol eu hunain o ddewislen. Yn aml mae'r dewisiadau o'r hyn sydd ar gael yn hytrach na'r hyn y mae'r dysgwr yn ei ddewis neu'r hyn sydd ei angen arno. Mewn un UCD, roedd cyfarfodydd cynghorau ysgol yn seiliedig ar anghenion hamdden fel pobl ifanc eisiau 'play station' i'w ddefnyddio amser egwyl, yn hytrach nag anghenion cwricwlwm a chymorth pwysicach.

49 Mae newidiadau mewn penderfyniadau rheoli yn digwydd mewn llawer o ysgolion pan fydd staff yn ymateb i farnau a safbwyntiau pobl ifanc. Mae llawer o enghreifftiau o bobl ifanc yn gwneud newidiadau, er enghraifft, i brydau ysgol, amserau egwyl a chyfleusterau toiled. Fodd bynnag, mae'r enghreifftiau mwyaf effeithiol i'w gweld yn y nifer fach o achosion lle mae pobl ifanc yn dylanwadu ar benderfyniadau'n ymwneud â materion fel:

- ehangu'r cwricwlwm yn y chweched dosbarth;

- gwneud newidiadau mewn rheoli disgyblaeth;
- arddulliau addysgu; ac
- agweddau ymarferol ar y cwricwlwm.

50 Nid yw lleiafrif o arweinwyr ysgol yn gwneud digon i ymestyn y cyfle i bob person ifanc gyfranogi'n effeithiol ar gynghorau ysgolion.

51 Mae gan ryw hanner yr ardaloedd awdurdodau lleol yr ymwelwyd â hwy fforwm neu gyngor ieuenctid ar waith lle gall pobl ifanc fynegi'u barnau. Fodd bynnag, mae'n aneglur yn aml sut mae'r bobl ifanc wedi'u dewis. Mae pobl ifanc yn aneglur yn aml ynghylch eu rolau. Nid ydynt bob amser yn gynrychioliadol o'u cymuned o ran angen, diddordeb na daearyddiaeth. Golyga hyn nad oes gan bobl ifanc eraill, yn aml, fodd o roi'u barnau i'r fforymau na chael adborth. Mewn llawer o achosion, mae fforymau yn recriwtio pobl ifanc o glybiau ieuenctid awdurdodau lleol neu gynghorau ysgol yn unig.

52 Er gwaetha'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc gyfranogi, nid yw llawer o grwpiau o bobl ifanc yn gallu cael mynediad i'r cyfleoedd hyn. Nid yw staff bob tro yn helpu'r bobl ifanc sy'n rhedeg fforymau a chynghorau ieuenctid i ddeall pam ei bod yn bwysig i werthfawrogi anghenion grwpiau o bobl ifanc sy'n anodd eu cyrraedd, a'u cynnwys. Nid oes digon o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg, pobl ifanc sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid a phobl anabl i gyfranogi. Fodd bynnag, mewn nifer fach iawn o achosion, mae darparwyr yn targedu grwpiau penodol sy'n cael eu tangynrychioli er mwyn eu cynnwys mewn cyfranogiad. Mae hyn yn cynnwys teithwyr a cheiswyr lloches. Mae cyfraddau cyfranogiad pobl ifanc dros 16 oed a hyd at 25 oed yn wael.

53 Mae'r prosiect Draig Ffynci a gychwynnwyd yn ddiweddar i gynnwys grwpiau diddordeb penodol fel pobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder ieuenctid a siaradwyr Cymraeg mewn gweithgareddau ymgynghori a chyfranogi yn gosod esiampl ddefnyddiol i gynghorau lleol a fforymau.

54 Mae nifer fach o raglenni arbenigol effeithiol iawn sy'n datblygu ymwybyddiaeth foesol, gymdeithasol a diwylliannol pobl ifanc. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys rhaglenni addysg cyfoedion sy'n rhoi pobl ifanc wrth wraidd dysgu. Mae pobl ifanc yn aml yn dod yn gysylltiedig â gwirfoddoli o ganlyniad i gyfranogi. Mae hyn yn arbennig o wir mewn un TTI[5], llawer o Wasanaethau Ieuenctid ac mewn un Menter Iaith[6].

[5] TTI. Tîm Troseddau Ieuenctid.

[6] Menter iaith Gymraeg wedi'i seilio yn y gymuned sy'n cynnig cefnogaeth i gymunedau gynyddu a datblygu eu defnydd o'r Gymraeg.

Y gofal, yr arweiniad a'r cymorth i bobl ifanc

55 Mae llawer o weithwyr yn rhoi cymorth da yn aml i fodloni anghenion ychwanegol grwpiau anodd eu cyrraedd a phobl ifanc nad ydynt yn cyflawni'n dda neu nad ydynt yn gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant. Mae staff yn deall bod angen cymorth ar y bobl ifanc hyn er mwyn iddynt allu cymryd rhan lawn mewn prosesau cyfranogol. Er enghraifft, mae staff cymorth dysgu ar gael i un grŵp o bobl ifanc sydd ar brosiect cwricwlwm ychwanegol[7]. Mae hyn yn eu helpu i wneud penderfyniadau a dewisiadau syml. Mewn llawer o ardaloedd awdurdodau lleol, mae rhaglenni cymorth cyfoedion yn annog mwy o bobl ifanc i gymryd rhan. Mewn ychydig o achosion, mae cymorth cyfoedion yn cael effaith gadarnhaol drwy ysgolion a chymunedau. Mae un rhaglen cymorth cyfoedion o fewn y TTI yn cynnwys pobl ifanc yn mentora rhai eraill sy'n iau na hwy'u hunain.

56 Fodd bynnag, nid yw rhai pobl ifanc yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i wneud penderfyniadau pwysig sy'n effeithio ar eu bywydau. Yn aml, nid oes gan bobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r TTI, Plant Sy'n Derbyn Gofal a gofalwyr ifanc yr hyder na'r cymorth i fod yn rhan o'r strwythurau niferus sydd wedi'u sefydlu i gynnwys pobl ifanc. Mae rhai enghreifftiau o brosiectau sy'n targedu'u cysylltiad yn llwyddiannus â gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, soniodd pobl ifanc mewn un awdurdod lleol am brosiect eiriolaeth dros bobl ifanc. Roeddent yn teimlo bod y prosiect hwn yn eu cynorthwyo'n dda i gyfranogi'n fwy effeithiol.

57 Yn aml, nid yw'r cymorth ar gyfer cyfranogiad yn cyrraedd y bobl ifanc y mae arnynt ei angen fwyaf, gan nad yw systemau cynllunio yn cynnwys adnoddau i gyfranogi. Yn yr ychydig achosion lle mae systemau'n nodi cyfranogiad a chymorth ar gyfer cyfranogiad, mae pobl ifanc yn adrodd am ganlyniadau cadarnhaol yn bersonol ac yn disgrifio'i effaith gadarnhaol ar eu haddysg. Er enghraifft, cynlluniodd gweithwyr cymdeithasol yn cynorthwyo gofalwyr ifanc becyn cymorth cynhwysfawr ar gyfer pobl ifanc a oedd eisiau bod yn rhan o fforwm awdurdod lleol. Hefyd, comisiynodd un ysgol adroddiad monitro allanol ar yr ysgol gyfan. Yn ystod y broses hon, esboniodd y bobl ifanc eu bod eisiau mwy o amser i drafod materion yn anffurfiol gyda staff. Arweiniodd hyn at yr ysgol yn cyflogi dau weithiwr allymestyn i gynorthwyo disgyblion yn yr ysgol.

58 Mewn lleiafrif o achosion, mae'r cyfathrebu rhwng pobl ifanc a staff yn aneffeithiol. Yn yr enghreifftiau hyn, nid yw pobl ifanc yn gwybod am gyfleusterau ac adnoddau a fyddai'n eu helpu i gyfranogi'n fwy effeithiol. Nid oes gwybodaeth am ffyrdd o gyfranogi ar gael o hyd i bobl ifanc sy'n cael eu haddysg y tu allan i'r fwrdeistref y maent yn byw ynddi. Mae hyn yn arbennig o wir am y rheini sy'n mynychu ysgolion ffydd neu ysgolion Cymraeg.

[7] Cwricwlwm Ychwanegol – ystod o brosiectau lle mae pobl ifanc yn cael dewisiadau amgen i rannau o addysg y brif ffrwd.

Effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth

59 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dechrau rhoi arweinyddiaeth i ddarparwyr i'w helpu i ddatblygu ymagweddau at gyfranogiad pobl ifanc. Mae Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 wedi darparu cymhelliant strategol i alluogi ysgolion i ymateb yn gyflym i'r agenda cyfranogiad. Mae'r Is-adran Cyfranogiad Ieuenctid a Disgyblion[8] mewn partneriaeth â'r Is-adran Rheolaeth Ysgolion hefyd wedi comisiynu tri adroddiad cwmpasu i helpu sefydlu sylfaen i allu mesur datblygiadau ohoni. Hefyd, mae'r Consortiwm Cyfranogiad[9], mewn partneriaeth ag Achub y Plant, yn gweithio i rannu arfer dda ac i adeiladu arbenigedd mewn cyfranogiad pobl ifanc mewn gwneud penderfyniadau ar hyd a lled Cymru.

60 Mae rhan fwyaf y chwaraewyr allweddol mewn awdurdodau lleol, gan gynnwys yr awdurdod addysg lleol, y gwasanaethau cymdeithasol ac adran y Prif Weithredwr, yn deall pwysigrwydd cyfranogiad pobl ifanc mewn gwneud penderfyniadau. Mae llawer o PPIau a Gwasanaethau Ieuenctid wedi atgyfnerthu'r ymrwymiad hwn gyda strategaeth ysgrifenedig ar gyfer cyfranogiad. O ganlyniad, mae llawer o ddarparwyr wedi dechrau cynllunio ar gyfer cyfranogiad pobl ifanc mewn gwneud penderfyniadau. Mae ganddynt gymal am eu hymrwymiad i gyfranogiad yn eu cytundebau â sefydliadau eraill. Er enghraifft, mae un PPI yn cynnal dau gyfarfod rheoli perfformiad gyda darparwyr unigol bob blwyddyn. Mae'r cyntaf yn gyfarfod i fonitro cynnydd, ac mae'r ail yn ymwneud â chrynhoi'r graddau y mae'r prosiect wedi cwrdd â'i dargedau perfformiad sy'n cynnwys lefelau cyfranogiad. Mae hyn yn llywio'r adroddiad blynyddol.

61 Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw'r systemau y mae darparwyr yn eu rhoi ar waith i gynllunio a rheoli gwasanaethau yn cynnwys cyfranogiad gan bobl ifanc fel rhan annatod o fecanweithiau gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, pan fydd awdurdodau'n ymgynghori ar ddogfennau polisi allweddol, dywed pobl ifanc nad yw'r rhain wedi'u cynhyrchu ar ffurf neu arddull y gallant eu deall yn hawdd.

62 Mewn llawer o awdurdodau, mae uwch reolwyr wedi ymrwymo i'r agenda cyfranogiad a hawliau. Maent wedi gosod y sylfeini i wella cyfranogiad pobl ifanc. Yn gynyddol, mae arweinwyr a rheolwyr yn canolbwyntio ar ffyrdd i annog cyfranogiad mwy effeithiol. Mae effeithiolrwydd systemau i annog cyfranogiad yn amrywio gryn dipyn o awdurdod i awdurdod a darparwr i ddarparwr. Mewn un awdurdod lleol, mae cynghorwyr yn teithio o amgylch cymunedau llai a mwy gwledig i gyfarfod â chynghorau cymuned ac ysgolion. Mae hyn yn galluogi pobl ifanc i gyfathrebu'n uniongyrchol a chyson â chynghorwyr. Roedd gan awdurdod arall gynghorydd penodol fel eiriolwyr dros bobl ifanc. Fodd bynnag, nid yw'r cynghorydd yn sicr ynghylch ei rôl, yr agenda cyfranogiad a'r modd y gall ddatblygu cynnwys pobl ifanc.

[8] O 1 Ebrill 2006, mae'r is-adran hon yn cael ei hailenwi yn Is-adran Cyfleoedd Ieuenctid a Dysgu Gydol Oes.

[9] Consortiwm Cyfranogiad – Corff strategol aml-asiantaeth a sefydlwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu gallu ac arfer mewn cyfranogiad.

63 Mae pobl ifanc yn dweud wrth arolygwyr bod arweinwyr a rheolwyr yn awyddus ac wedi ymrwymo i gyfranogiad. Mewn llawer o achosion, yn enwedig lle mae'r ddarpariaeth yn dda, mae pobl ifanc yn gweld y system fel un effeithiol, ac maent yn hyderus y gwrandewir ar eu lleisiau. At ei gilydd, lle mae pobl ifanc yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, mae eu barnau'n cael eu cydnabod, a gweithredir arnynt. Fodd bynnag, mae diffyg blaenoriaeth yn cael ei rhoi i wrando ar farnau pobl ifanc ymhlith rhai darparwyr.

64 Mae rhan fwyaf y Partneriaethau Pobl Ifanc mewn cyfnod cynnar o gynnwys dysgwyr mewn penderfyniadau strategol. Mae'r partneriaethau wedi pennu'u hamcanion, ac mae'r rhain yn cynnwys pobl ifanc yn ymwneud â chynllunio gwasanaethau a'u rhoi ar waith. Fodd bynnag, nid oes unrhyw systemau effeithiol i'r partneriaethau gael barnau pobl ifanc, ac i sicrhau bod y rhain yn llywio cynllunio. Mewn ychydig o bartneriaethau, mae potensial i bobl ifanc fod yn gysylltiedig ag is-grwpiau'r PPI, ond nid yw cydlynwyr na phobl ifanc wedi gwneud hyn eto. Mae'r Partneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc[10] yn arwain yr agenda cyfranogiad yn aml mewn ardaloedd awdurdodau lleol, ac mae ganddynt is-grwpiau neu staff i ganolbwyntio ar y mater hwn. Fodd bynnag, wrth roi cyfranogiad ar waith, nid yw'r strwythurau'n ddigon cadarn yn aml i wneud gwahaniaeth i bobl ifanc. Er enghraifft, mewn un awdurdod, nid oedd sefydlu grŵp Gwrando ar Blant wedi rhoi'r arweinyddiaeth angenrheidiol i hyrwyddo'r agenda cyfranogiad. Felly, roedd bwlch yn yr arweinyddiaeth.

65 At ei gilydd, nid yw pwyllgorau ieuenctid lleol a chynghorau ysgol yn dylanwadu ar awdurdodau lleol yn effeithiol eto. Y rheswm am hyn yn aml yw problemau cyfathrebu rhwng darparwyr. Serch hynny, mae awdurdodau'n trefnu diwrnodau i ffwrdd a chynadleddau i rannu barnau ar draws grwpiau. Mae'r rhain yn cynnwys fforymau cyngor ysgolion a diwrnodau cyfranogiad ar draws darparwyr.

66 Mae'r fforymau ieuenctid ar draws awdurdodau lleol wedi'u sefydlu'n wael mewn rhyw hanner yr awdurdodau yr ymwelwyd â hwy. Nid oes unrhyw fecanweithiau ar waith ar gyfer dewis neu i sicrhau cynrychiolaeth deg ar y fforymau. Nid yw rolau a chyfrifoldebau wedi'u sefydlu'n glir.

67 Mae gan y sector gwirfoddol rôl bwysig i'w chwarae yn yr agenda cyfranogiad gan fod llawer o sefydliadau yn arfer datblygu medrau dinasyddiaeth pobl ifanc. Fodd bynnag, nid yw cyfraniad y sector yn cael ei ddefnyddio digon. Mewn rhai achosion lle mae prosiectau sector gwirfoddol wedi penodi swyddogion cyfranogiad penodol i gynnwys pobl ifanc, mae'r canlyniadau wedi bod yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae'r diffyg ariannu hirdymor ar gyfer y gwaith hwn yn golygu nad yw cyfranogiad wedi cael amser i wreiddio yn arfer bob dydd rhan fwyaf y sefydliadau. Mae sefydliadau gwirfoddol eraill yn canolbwyntio ar weithgareddau blynyddol wedi'u hamserlennu, sy'n golygu mai cyfleoedd cyfyngedig yn unig a gaiff pobl ifanc i wneud penderfyniadau ar y gwasanaethau a gyflwynir.

68 Gall ffyrdd gwahanol o feddwl am gyfranogiad pobl ifanc godi materion rhwng darparwyr. Cred rhai darparwyr y dylai'r bobl ifanc gychwyn unrhyw ddatblygiadau eu hunain, lle mae darparwyr eraill yn gweld unrhyw weithgarwch fel modd o annog

[10] Y mecanwaith cynllunio trosfwaol ar gyfer y grŵp oed 0 i 25 ar draws ardal awdurdod lleol.

cyfranogiad. Arweinia hyn at wrthdaro a dryswch rhwng sefydliadau. O ganlyniad, nid yw pobl ifanc yn cael yr un lefel o gyfranogiad gan ddarparwyr gwahanol.

Effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr wrth arfarnu a gwella ansawdd a safonau

69 Mae'r Consortiwm Cyfranogiad, mewn partneriaeth ag Achub y Plant yn datblygu offeryn asesu effaith ar gyfer cyfranogiad pobl ifanc. Mae'n rhy gynnar i ddweud pa ddylanwad a gaiff yr offeryn hwn ar ansawdd gwaith cyfranogiad gyda phobl ifanc. Fodd bynnag, mae'r consortiwm yn darparu fforwm effeithiol y gall darparwyr rannu arfer dda drwyddo, datblygu safonau cyffredin ar gyfer cyfranogiad a gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella ansawdd safonau wrth gyflwyno cyfranogiad.

70 Nid yw arweinwyr a rheolwyr yn gyson o ran y modd y cynhwysant bobl ifanc mewn gwella ansawdd a safonau. Dim ond nifer fach o ddarparwyr sy'n cynnwys pobl ifanc mewn:

- cynllunio ar gyfer gwelliannau;
- cymryd rhan mewn gwneud gwelliannau; ac
- arfarnu gwelliannau.

71 Y rheswm am hyn yw bod arweinwyr a rheolwyr yn aneglur yn aml ynghylch y ffyrdd y mae cyfranogiad yn helpu i wella ansawdd gwaith gyda phobl ifanc, a'r modd y mae'n gwella cynllunio i fodloni anghenion pobl ifanc yn well. Hefyd, nid yw arweinwyr a rheolwyr yn glir ynghylch y modd y gellir defnyddio'r wybodaeth y mae pobl ifanc yn ei rhannu gyda hwy i ddatblygu a gwella gwasanaethau.

72 Yn aml mae pobl ifanc yn fwy cysylltiedig â chynllunio, nag ag elfennau eraill gwella ansawdd. Er enghraifft, mae pobl ifanc yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn ymarferion ymgynghori neu gynllunio. Roedd gan un TTI feddalwedd a oedd yn galluogi pobl ifanc i roi eu barnau am wasanaethau. Cafodd y barnau a gasglwyd eu defnyddio i wella cyflwyno gwasanaethau.

73 Mewn sefyllfaoedd eraill, mae pobl ifanc yn ymwneud â gweithgareddau arfarnu drwy holiaduron neu daflenni hapus. Mae'r holiaduron hyn wedi'u seilio'n bennaf ar fodlonrwydd a syniadau ar gyfer y dyfodol, yn hytrach na chanolbwyntio ar effaith, a defnydd strategol cyfyngedig sydd iddynt.

74 Mae enghreifftiau da o brosiectau sy'n cynnwys pobl ifanc yng nghynllunio, adolygu ac arfarnu'u gwaith eu hunain a gwaith y staff. Mae enghreifftiau'n cynnwys mentrau lle mae gweithwyr ieuenctid wedi'u cysylltu ag ysgolion a cholegau. Mae gan un Gwasanaeth Ieuenctid grŵp o bobl ifanc sy'n ffurfio tîm arolygu mewnol. Mae pobl ifanc yn y rhaglen hon yn ymwneud â monitro ansawdd yn y Gwasanaeth Ieuenctid. Mae strwythur yr arolygiadau hyn wedi'i ddatblygu'n dda a gwneir arolygiadau lle rhoddir rhybudd, arolygiadau dirybudd (ar hap) ac arolygiadau thematig (Atodiad 2).

75 Yn y cynghorau ysgolion mwyaf effeithiol mae pobl ifanc yn gysylltiedig â gwneud newidiadau i fywyd eu hysgol drwy'r cynllun gwella ysgol. Golyga hyn bod pobl ifanc

yn gysylltiedig â phob cyfnod y cynllunio. Hefyd, maent yn monitro cynnydd y datblygiadau cytûn gydag uwch aelodau staff.

76 Nid yw darparwyr yn cynnwys pobl ifanc yn ddigonol yn eu prosesau hunanasesu eu hunain. Mewn un achos ymgynghorodd Partneriaeth Pobl Ifanc â'r cyngor ieuenctid ynghylch y rhannau o Adroddiad Hunanasesu oedd yn eu henwi. Fodd bynnag, nid oedd y bartneriaeth yn cynnwys pobl ifanc yn y broses gyffredinol. Gan amlaf, nid yw pobl ifanc yn cael eu cynnwys wrth gynllunio ar gyfer gwelliant. Nid ydynt felly yn deall eu cyfrifoldebau ar gyfer gwneud gwelliannau. Gall y gwelliannau hyn gynnwys eu hymrwymiad i weithredu neu esbonio i staff pam mae gwasanaethau, neu pam nad yw gwasanaethau, yn addas i'r pwrpas.

Effeithiolrwydd rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau

77 Nifer fach o ddarparwyr sy'n dweud wrth bobl ifanc am adnoddau sydd ar gael i helpu pobl ifanc i gyfrannu at farnau am flaenoriaethu. Ar yr ychydig o achosion lle mae arweinwyr a rheolwyr wedi rhoi gwybodaeth i bobl ifanc am gyllidebau, dyrannu staff a chyfleusterau sydd ar gael, mae pobl ifanc wedi cyfrannu'n adeiladol at drafodaethau strategol. Er enghraifft, fe wnaeth pobl ifanc mewn un awdurdod lleol ystyried tendrau ar gyfer datblygiadau ar dir yn eu cymuned. Anogodd llwyddiant y prosiect staff yr awdurdod lleol i gysylltu ymhellach â phobl ifanc i rannu mwy o benderfyniadau dyrannu adnoddau gyda hwy.

78 Ar draws Cymru, mae arfer dda lle mae pobl ifanc yn gweithio gydag arweinwyr a rheolwyr i wneud y defnydd gorau o adnoddau. Serch hynny, nid yw'r arfer dda hon yn cael ei rhannu â chydweithwyr i helpu cynyddu ymwybyddiaeth rheolwyr a staff yr agenda cyfranogiad, ac i wneud defnydd da o adnoddau presennol. Mae'n rhy gynnar i farnu effaith y Consortiwm Cyfranogiad a thîm Polisi, Cynhwysiad a Chyfranogiad yr Is-adran Cyfranogiad Ieuenctid a Disgyblion ar hyn.

79 Mae rhai sefydliadau, fel y Bartneriaeth Pobl Ifanc, y Fframwaith Plant a Phobl Ifanc a'r awdurdod iechyd wedi neilltuo adnoddau sylweddol i'r agenda cyfranogiad. Fodd bynnag, arian heb fod yn arian craidd, ac arian tymor byr yw hwn yn aml. Anaml iawn y bydd arweinwyr a rheolwyr yn cynllunio adnoddau'n strategol i gynorthwyo cyfranogiad pobl ifanc. Hefyd, mewn llawer o achosion, mae hyrwyddo cyfranogiad yn dibynnu ar staff yn ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol.

80 Yn yr ychydig o achosion lle mae arweinwyr a rheolwyr wedi gwneud ymrwymiad strategol a gweithredol i ddefnyddio adnoddau i gynorthwyo cyfranogiad, mae'r effaith yn sylweddol. Er enghraifft, nid yw'r cynllun Ysgolion Iach yn rhyddhau arian i ysgolion heb dystiolaeth bod arweinwyr a rheolwyr wedi cynnwys pobl ifanc mewn gwneud penderfyniadau. Mae'r cynllun wedi arwain yr agenda cyfranogiad mewn llawer o ysgolion gan ei fod yn darparu adnoddau ymarferol i bobl ifanc a staff. Hefyd, mae'r cynllun yn annog athrawon unigol i gynnal cynlluniau peilot o ddulliau arloesol o gynnwys pobl ifanc.

81 Mae llawer o awdurdodau lleol wedi penodi unigolion i hwyluso cyfranogiad neu fforwm ar draws y sir, fel arfer o fewn y Fframwaith, y Gwasanaeth Ieuenctid neu'r Bartneriaeth Pobl Ifanc. Yn rhy aml, mae hyn yn arwain at gyfranogiad yn cael ei weld fel cyfrifoldeb un unigolyn yn hytrach na thasg graidd i'r holl staff, arweinwyr a rheolwyr. Mae'r swyddog dynodedig yn gweithio ar ei ben ei hun yn aml, ac ychydig o gyfle a gaiff i ddatblygu'r gwaith gyda staff eraill.

82 Mae rhan fwyaf y staff yn ymwybodol o bwysigrwydd cyfranogiad pobl ifanc yn y gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau. Fodd bynnag, nid yw'r medrau na'r wybodaeth ofynnol ganddynt i ddwyn ymlaen y gwaith o gynnwys pobl ifanc mewn gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn arbennig o amlwg ar draws gwasanaethau cymorth ieuenctid. Nid oes mynediad gan weithwyr at hyfforddiant arbenigol a phenodol i'w galluogi i ddwyn agenda cyfranogiad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei blaen.

83 Nid yw'r nifer fach o staff sydd â phrofiad ac arbenigedd mewn gwaith cyfranogiad, yn defnyddio'u gwybodaeth yn dda i wella'r ystod o gyfleoedd cyfranogiad i bobl ifanc. Nid yw systemau gwerthuso ar gyfer staff gwasanaethau cymorth ieuenctid yn eu hannog i gynnwys cyfranogiad pobl ifanc yn eu gwaith craidd. Nifer fach iawn o staff sydd â thargedau sy'n gysylltiedig â datblygu cyfranogiad pobl ifanc.

Atodiad 1: Hawliau

Mae'r adran hon yn edrych ar yr ystod o wasanaethau a'r graddau y mae cyfranogiad pobl ifanc wedi'i wreiddio yn y deg hawl. Mae'r deg hawl ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed yn cael eu hamlinellu yn Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo Pobl Ifanc yng Nghymru 2000.

Addysg, hyfforddiant, profiad gwaith

Ysgolion

Mae gan ran fwyaf yr ysgolion ddulliau effeithiol o gynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Yn yr enghreifftiau gorau, mae cynghorau ysgolion yn cael effaith ar ymagweddau ysgol gyfan at addysgu a dysgu ar lefelau strategol. Mae prosesau cyfranogiad yn cael eu defnyddio'n dda fel dyfais ddysgu ar gyfer disgyblion, ac weithiau maent wedi'u gwreiddio mewn addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ar draws y cwricwlwm. Hefyd, mae pobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn penodiadau staff ac maent yn ymwybodol o benderfyniadau ariannu. Fodd bynnag, mae gan bob awdurdod ychydig o ysgolion sy'n gweithredu ar eu pennau hunain ac nid ydynt yn annog cyfranogiad pobl ifanc. Nid yw arfer arloesol yn cael ei rhannu'n effeithiol rhwng ysgolion. Mae pobl ifanc mewn prosiectau cwricwlwm amgen yn cymryd rhan weithgar mewn trafodaethau am gyfleoedd addysg sydd ar gael iddynt.

Y Gwasanaeth Ieuenctid

Mewn llawer o awdurdodau, mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn arwain mentrau cyfranogiad yn dda. Fodd bynnag, mae lefelau isel iawn yn aml o gyfranogiad gwirioneddol yn y Gwasanaeth Ieuenctid rhan-amser. Mae hyn yn sgil ansawdd gwael cynllunio, cyflwyno ac arfarnu. Yn yr ychydig o achosion lle mae arfer dda yn y gwasanaeth rhan-amser, mae gweithwyr ieuenctid yn galluogi pobl ifanc i ddatblygu'r medrau y mae eu hangen arnynt i gyfranogi.

Profiad gwaith

Yn yr enghreifftiau gorau, mae pobl ifanc yn cael cymorth da i drefnu profiad gwaith. Mae cronfa ddata o gyflogwyr yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol iddynt am argaeledd lleoliadau. Hefyd, mae'r bobl ifanc hyn yn cael eu paratoi'n dda cyn eu profiad gwaith a rhoddir adroddiad effeithiol iddynt ar y diwedd. Fodd bynnag, mae pobl ifanc eraill yn gwneud penderfyniadau brysiog yn aml wrth ddewis lleoliadau profiad gwaith. Nid ydynt yn cyfranogi'n ystyrlon yn y broses gwneud penderfyniadau gan nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth na'r medrau i drefnu lleoliadau addas. Mae llawer o bobl ifanc yn cael lleoliadau nad ydynt yn ystyried yn berthnasol i'w nodau gyrfa gan na allant ddod o hyd i'r hyn a gredant sy'n lleoliadau priodol.

Mynediad i Fedrau Sylfaenol

Mae ychydig o enghreifftiau o bobl ifanc sy'n gysylltiedig â phennu'u cynlluniau dysgu unigol eu hunain. Fodd bynnag, mae rhieni a gofalwyr yn aml yn cael mwy o ddylanwad na'r bobl ifanc.

Dim ond nifer fach iawn o ddarparwyr sy'n gwneud y cysylltiad rhwng datblygiadau medrau allweddol a chyfranogiad. Mae prosiectau cwricwlwm amgen yn helpu pobl ifanc i ddatblygu medrau bywyd. Er enghraifft, mae pobl ifanc yn dysgu sut i ddefnyddio cludiant cyhoeddus ac i wneud dewisiadau mewn bwytai.

Y potensial i fod yn ddinasyddion gweithgar

Mae pobl ifanc yn dysgu medrau defnyddiol i gynorthwyo'u cyfranogiad mewn agendâu dinasyddiaeth ehangach drwy ysgolion.

Mae llawer o fentrau Cymunedau yn Gyntaf yn cynnwys pobl ifanc yn dda. Mewn llawer o awdurdodau, mae staff o ganolfannau a phrosiectau ieuenctid yn rhoi cefnogaeth dda i bobl ifanc ac yn eu helpu i gymryd rhan mewn cyfarfodydd partneriaeth. Mae un bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf yn tynnu ynghyd barnau cynghorau ysgolion ar gynlluniau cymunedol, yn hytrach na'n creu system newydd.

Mae pobl ifanc sy'n ymwneud â gweithgareddau seiliedig ar gyfranogiad yn eu sefydliad yn debygol o ddatblygu eu dysgu drwy wirfoddoli. Mae'r medrau a ddysgant yn sgil cyfranogiad felly yn cael eu rhoi ar waith yn eu cymuned eu hunain. Mae enghreifftiau da yn y Tîm Troseddau Ieuenctid, Cymunedau yn Gyntaf a Menter Iaith.

Gwasanaethau a chyfleusterau hygyrch ac o ansawdd uchel

Mae rhai ymagweddau arloesol i ddileu dadrithiad gwledig sy'n helpu pobl ifanc fod yn rhan o gyfranogiad. Roedd gan bobl ifanc rhan fawr mewn arfarniad allanol o'r modd yr oedd eu hysgol yn mynd i'r afael â dadrithiad gwledig. Nododd y bobl ifanc yr angen am gymorth ychwanegol gyda materion yn y gymuned a oedd yn effeithio arnynt yn ystod oriau y tu allan i'r ysgol. Arweiniodd hyn at gyflogi gweithwyr cynhwysiad allymestyn. Mae eu gwaith yn gwella gallu'r bobl ifanc i gyfranogi'n dda yn yr ysgol ac i ymuno â bywyd y gymuned mewn modd mwy cadarnhaol.

Ychydig o gyfleoedd dwyieithog sydd i bobl ifanc sy'n defnyddio'r Gymraeg fel eu hiaith ddewisol.

Mae Draig Ffynci yn estyn allan i bobl ifanc sydd â diddordebau neu anghenion penodol. Mae Draig Ffynci wedi datblygu rhaglen sy'n targedu ac yn cynorthwyo grwpiau penodol o bobl ifanc. Y rhain yw:

- pobl ifanc ag anabledd;
- pobl ifanc sy'n derbyn gofal;

- pobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig;
- pobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder ieuenctid;
- gofalwyr ifanc;
- pobl ifanc â phroblemau salwch hirdymor (nid ag anableddau);
- pobl ifanc lesbaidd, hoyw a thrawsrywiol; a
- phobl ifanc ddigartref.

Mae pobl ifanc yn arwain y gwaith, ac yn grymuso pobl ifanc eraill drwy eu helpu i ddatblygu'r medrau i gyfranogi mewn gwneud penderfyniadau. Mae'r prosiect yn mabwysiadu ymagwedd 'gallu i weithredu'n hyderus' ac yn rhoi arweiniad i helpu pobl ifanc i symud ymlaen.

Arweiniad ar yrfa

Yn yr enghreifftiau gorau, mae staff cwmnïau gyrfa yn gweithio'n dda gyda phobl ifanc i sicrhau eu bod yn cyfranogi'n llawn yn eu cyfweliad arweiniad ar yrfa. Mewn sefyllfaoedd llai boddhaol, nid oes gwybodaeth ddigonol gan staff i fodloni anghenion pobl ifanc. Mewn nifer sylweddol o achosion lle nad yw gwasanaethau wedi'u datblygu gymaint, a lle nad yw'r rheolaeth ansawdd yn gyson, nid oes gan bobl ifanc ddigon o wybodaeth neu fedrau o hyd i'w helpu i wneud penderfyniadau am eu syniadau neu gynlluniau gyrfa.

Cymorth a chyngor personol

Mae llawer o TTIau yn gwneud yn siwr bod pobl ifanc yn trafod eu rhaglenni. Mae un TTI yn goresgyn rhwystr ymddygiad gwael gan bobl ifanc, sy'n atal cyfranogi. Mae staff yn cael y bobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'u trosedd neu ymddygiad er mwyn iddynt allu deall canlyniadau eu gweithredoedd a helpu i ddylanwadu ar eraill i beidio ag ymddwyn mewn modd tebyg. Serch hynny, mewn nifer o enghreifftiau nid yw pobl ifanc yn cael y cymorth y mae ei angen arnynt i gymryd rhan. Nid yw pobl ifanc ar Orchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol[11] (ASBO) yn cael llawer o gymorth, os o gwbl, i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae gan rai partneriaid y sector gwirfoddol, fel Barnados ac NCH, lefelau uchel iawn o ddealltwriaeth o'r cymorth sydd ei angen i rai pobl ifanc gyfranogi. Sicrheir bod cymorth priodol ar gael i bobl ifanc sy'n agored i niwed; o ganlyniad, cyflawnant yn dda iawn yn y grwpiau hyn a datblygant fedrau a gwybodaeth briodol.

[11] Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Gorchmynion cyfyngol ar ymddygiad a symudiad.

Gwybodaeth am faterion fel iechyd a thai

Mae'r Byrddau Iechyd Lleol a'r Awdurdodau Iechyd Cyhoeddus yn ymwneud â llawer iawn o waith gyda phobl ifanc, ac yn eu cynnwys yn dda mewn cynllunio prosiectau a phrosesau arfarnu ffurfiol.

Mae'r rhaglen ysgolion iach yn gofalu bod pob ysgol yn cynnwys cyfranogiad pobl ifanc yn eu cynllun gweithredu. Nid yw'r cynllun gweithredu yn cael ei gytuno heb fod pobl ifanc wedi bod yn rhan o'r gwneud penderfyniadau ac nid yw arian yn cael ei ryddhau. Golyga hyn bod pwysau ychwanegol i weithredu'n gadarnhaol yn cael ei roi ar arweinwyr a rheolwyr ar lefel strategol.

Mae prosiectau iechyd eraill yn canolbwyntio ar ystod o agweddau o fewn cyfranogiad, a nodir rhai enghreifftiau yma. Mae un prosiect sy'n canolbwyntio ar iechyd emosiynol pobl ifanc yn casglu data gwaelodlin gan bobl ifanc ac yn mesur cynnydd yn erbyn targedau yn gyson. Hefyd, ar ddiwedd pob prosiect, mae asesiad effaith dilynol yn cael ei gynnal i nodi'r graddau y mae gwasanaethau wedi gwneud gwahaniaeth i bobl ifanc a'u galluoedd i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau.

Mae Hybu Iechyd yn cyfarfod â phobl ifanc ar lefel strategol i greu syniadau a barnau. Ar draws Cymru, un o brif bryderon y bobl ifanc oedd ansawdd gwael addysg a gwasanaethau iechyd rhyw sydd ar gael yn yr ysgol. O ganlyniad, gweithiodd Hybu Iechyd gyda phobl ifanc i ddatblygu gwasanaethau priodol i fodloni'r angen hwn.

Mae pobl ifanc yn nodi'u hanghenion eu hunain drwy raglen feddalwedd ryngweithiol. Mae'r rhaglen yn gofyn 80 o gwestiynau ar draws themâu fel arian, ffordd o fyw ac iechyd, ac yn rhoi dadansoddiad o angen a blaenoriaethau. Mae'r gweithiwr a'r person ifanc wedyn yn penderfynu ar y gweithgareddau y bydd y person ifanc yn ymwneud â hwy, ac yn penderfynu pa wybodaeth bellach sydd ei hangen arnynt. Mae pobl ifanc yn adolygu'u cynnydd eu hunain wrth iddynt ddatblygu a diweddaru'r wybodaeth y maent wedi'i darparu. Mae hyn yn rhoi mwy o wybodaeth a hyder i bobl ifanc i wneud penderfyniadau am agweddau pwysig ar eu bywydau.

Gweithgareddau hamdden a chymdeithasol

Mae cyfranogiad yn elfen wan o waith gyda phobl ifanc mewn gweithgareddau hamdden a chymdeithasol. Nid yw cyfranogiad yn weithgarwch craidd o hyd yng nghlybiau ieuenctid rhan-amser y Gwasanaeth Ieuenctid nac yn yr aelwydydd rhan-amser Cymraeg. Dim ond dewis o weithgareddau y mae staff yn ei roi i bobl ifanc, ac mae'r rheini'n bennaf seiliedig ar y rhaglen o'r flwyddyn flaenorol.

Darlun cymysg iawn sydd ym mhrosiectau ieuenctid amser llawn y sector gwirfoddol. Mae gan lawer o'r sefydliadau hyn bobl ifanc yn ganolog i'r gwaith a sicrhânt gysylltiad llawn a pherchenogaeth hirdymor gan ddefnyddwyr. Fodd bynnag, mewn gormod o achosion, nid yw pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y cynllunio nac mewn gwneud penderfyniadau am weithgareddau.

Mae gan y Clybiau Ffermwyr Ifanc ymrwymiad cryf i gyfranogiad gan bobl ifanc. Mae'r ethos hwn wedi'i adeiladu i'w system lywodraethol ar lefelau lleol, rhanbarthol

a chenedlaethol. Mae'r broses hon yn cynnwys system cwynion, strwythur cynllunio ac mae'n sail gyfan gwaith y sefydliad. Mae pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael cymorth i wneud penderfyniadau a chynnal trafodaethau mewn amgylchedd diogel.

Profiadau chwaraeon, artistig ac awyr agored

Mae cysylltiad pobl ifanc â chynllunio yn fwyaf effeithiol pan fydd awdurdodau lleol yn ystyried barnau pobl ifanc wrth sefydlu cyfleusterau chwaraeon a hamdden dan do. Mae'r rhain yn gyfleusterau cyhoeddus y mae oedolion yn rhagdybio y mae pobl ifanc yn debygol o'u defnyddio. Mae enghreifftiau yn cynnwys parciau, parciau sglefrio a chanolfannau hamdden. Yn gynyddol, mae uwch swyddogion ac aelodau awdurdodau lleol yn gwrando ar bobl ifanc ac yn cynllunio yn unol â hynny.

Ar draws Cymru, mae pobl ifanc yn cael dylanwad ar benderfyniadau am barciau sglefrio, cyfleusterau beicio ac ardaloedd gemau aml-ddefnydd. Mae llawer o awdurdodau lleol yn croesawu lleisiau pobl ifanc mewn gwneud penderfyniadau ynghylch y mathau hyn o amwynderau. Fodd bynnag, nid yw barnau pobl ifanc yn cael blaenoriaeth felly o hyd pan fydd cyfleusterau eraill a ddefnyddiant, fel canolfannau iechyd newydd neu ardaloedd tai, yn cael eu sefydlu.

Mae pobl ifanc yn gwneud defnydd da o'r celfyddydau i gyfranogi mewn gwneud penderfyniadau. Mae pobl ifanc yn defnyddio ffilmiau, rhaglenni dogfen a ffotograffau yn effeithiol iawn i gael pobl eraill i ddeall eu barnau ac i gymryd perchenogaeth o sefyllfaoedd.

Yr hawl i gael mynegi barn

Mae'r Bartneriaeth Pobl Ifanc neu'r Gwasanaeth Ieuenctid yn arwain datblygiadau ar draws awdurdodau lleol yn aml ar ymgynghori â phobl ifanc. Fel arfer mae'r rhain ar ffurf fforymau neu gynghorau ieuenctid. Mae is-grwpiau i'r fforymau yn aml, sy'n amrywio o'r strategol i'r mwy gweithredol. Mae enghreifftiau'n cynnwys sgrialu, chwaraeon a hamdden, iechyd rhyw, cludiant, tai a chyfranogiad. Mewn rhai achosion, mae fforymau lleol yn bwydo i strwythur drwy'r sir. Mae nifer o'r bobl ifanc hyn wedyn yn cynrychioli'u hawdurdod lleol ar Draig Ffynci.

Mae Partneriaethau Pobl Ifanc yn siarad am gyfranogiad pobl ifanc. Gwahoddant bobl ifanc i wneud sylwadau neu i ddangos darn o'u gwaith. Fodd bynnag, nid yw pobl ifanc fel arfer yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am waith y bartneriaeth. Mae un Partneriaeth Pobl Ifanc yn cael diweddariadau ar gynnydd gan y Cyngor Ieuenctid cyn pob cyfarfod fel rhan o'r wybodaeth cyn-cyfarfod. Mae partneriaeth arall wedi datblygu pecyn offer cyfranogiad yn ddiweddar. Mae'r mentrau hyn wedi helpu cynyddu ymwybyddiaeth am faterion cyfranogiad ymhlith staff, darparwyr a gwleidyddion, ond mae'n rhy gynnar i asesu'u heffaith.

Mae Aelodau Etholedig a'u swyddogion mewn un awdurdod wedi cychwyn prosiect gyda phobl ifanc ar draws y fwrdeistref i hybu ymwybyddiaeth o waith y cyngor. Mae fforymau ar draws yr awdurdod lleol yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc gael mynegi barn ar amryw fentrau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys strategaethau iechyd lleol, ymgynghoriadau 14-19 ac ymgynghoriadau Clic.online.

Mae un bartneriaeth wrthi'n rhoi system ar waith i fonitro mynediad i'r deg hawl. Hefyd, mae'r bartneriaeth wedi adeiladu system i hyn i adrodd yn ôl i bobl ifanc mewn ffordd gryno.

Mae diffyg cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogiad trwy gyfrwng y Gymraeg.

Atodiad 2: Arfer Dda

Mae'r adran hon yn amlinellu arfer dda sydd wedi'i nodi gan arolygwyr.

Ymagwedd ysgol gyfan at gyfranogiad

Cynlluniodd yr uwch dîm rheoli a'r staff addysgu yn benodol ac yn strategol i wreiddio cyfranogiad pobl ifanc yn niwylliant yr ysgol. Mae hon yn broses hirdymor, sy'n cael ei chryfhau bob tymor.

Mae cyngor yr ysgol yn ymgymryd â thasgau penodol. Ar rai achlysuron, mae'r ysgol gyfan yn cael ei chynnwys. Er enghraifft, mae'r ysgol gyfan wedi llenwi holiaduron ar arddulliau dysgu, adnoddau, ymddygiad y cwricwlwm a disgyblaeth. Defnyddiodd yr ysgol y canfyddiadau i gynllunio ar gyfer ehangu'r cwricwlwm a rheoli ymddygiad pobl ifanc. Mae costau a goblygiadau ariannol yr holl benderfyniadau neu drafodaethau sy'n effeithio ar bobl ifanc yn cael eu hesbonio i gyngor yr ysgol. Hefyd, mae pobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn penodiadau staff addysgu.

Mae cynghorwyr yr ysgol yn ymwybodol iawn o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae aelodau cyngor yr ysgol yn dyrannu tasgau i swyddogion y cyngor neu gyd-ddisgyblion y chweched dosbarth. Mae hyn yn cynnwys siarad ag aelodau penodol o'r staff neu sefydliadau allanol, ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf. Mae'r holl gyfraniadau gan bobl ifanc ar draws pob blwyddyn ysgol yn effeithiol ac yn cael eu gwerthfawrogi.

Hefyd, mae fforwm y chweched dosbarth wedi'i sefydlu. Mae hyn yn golygu lefel dda o drafod, gyda'r ffocws ar gydweithredu rhwng staff a myfyrwyr y chweched dosbarth.

Trwy fod yn rhan o gyfranogiad, mae pobl ifanc wedi datblygu ymwybyddiaeth wleidyddol ac ymwybod cymdeithasol am faterion lleol a chenedlaethol.

Llais y Dysgwr/The Voice of the Learner

Mae un awdurdod addysg lleol yn amlinellu'r flaenoriaeth strategol a roddwyd i wrando ar bobl ifanc yn eu cynllun strategol addysg. Mae'n cael ei hadnabod fel Llais y Dysgwr/ The Voice of the Learner. Mae gan yr awdurdod ymagwedd gynhwysfawr at wrando ar bobl ifanc mewn ysgolion, ac yn benodol mewn perthynas ag addysgu a dysgu. Hefyd, mae ymgynghoriad llawn ar y cynllun strategol addysg wedi'i gynnal, ac fe'i hwyluswyd gan y gwasanaeth ieuenctid.

Mae'r awdurdod addysg lleol, drwy ymgynghorwyr cyswllt, yn monitro'r graddau y mae ysgolion yn cynnwys llais y dysgwr a'i effaith ar addysgu a dysgu. Mae cynghorau ysgolion wedi'u sefydlu, a chânt eu cynorthwyo'n effeithiol gan yr ymgynghorwyr cyswllt. Mae ysgolion a'r awdurdod lleol yn casglu arfarniadau o ddysgu yn yr ysgol, ac yn gweithredu arnynt. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar y moddau y mae athrawon a dysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd. Mae wedi rhoi tystiolaeth i reolwyr a staff addysgu sy'n cael ei defnyddio fel sylfaen i gynllunio gwaith y dyfodol arni.

Mae'r awdurdod hefyd wedi cydnabod yr angen i roi cynlluniau gweithredu ar waith i wneud aelodau etholedig, llywodraethwyr a rhieni yn fwy ymwybodol o'r agenda cyfranogiad.

Llwybrau 14-19 – Ymgynghoriad ar arddulliau dysgu

Comisiynodd un awdurdod addysg lleol ymgynghoriad ar arddulliau dysgu er mwyn adeiladu'r canlyniadau i'r cynlluniau ar gyfer datblygiadau 14-19.

Casglwyd y canlyniadau'n strategol ac mae penderfyniadau ynghylch dyfodol dysgu 14-19 ar draws yr awdurdod lleol wedi'u gwneud gan ddefnyddio arfarniadau dysgwyr o ddysgu yn yr ysgol a'r arddulliau dysgu sydd orau ganddynt.

Mae'r data'n cael ei ddefnyddio hefyd gan ysgolion unigol i helpu gyda chynllunio ar gyfer addysgu a dysgu. Hefyd, mae grwpiau ffocws o bobl ifanc sy'n nodi cyfleoedd i gydweithio er mwyn bodloni anghenion pobl ifanc mewn dalgylchoedd ysgol penodol. Mae pobl ifanc unigol wedi gweld newid nodedig yn y modd y mae eu haddysg yn cael ei chyflwyno o ganlyniad i'r ymgynghoriad. Golyga hyn bod pobl ifanc yn gallu dysgu'n fwy effeithiol, a bod athrawon yn gallu cynllunio'u gwaith yn well.

Clwb Ffermwyr Ifanc (CFfI) a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Canfu aelodau CFfI mewn un sir bod cyfranogiad yn cael ei rwystro gan strategaethau cyfathrebu gwael.

Datblygodd yr aelodau wefan i esmwytho'r anawsterau ac i wneud defnydd da o dechnoleg y we i gynnwys ei gilydd ac aelodau newydd neu ddarpar aelodau ym musnes y sefydliad. Mae'r wefan yn cael ei diweddaru gan aelodau ar gyfer aelodau, ac mae'n helpu rhannu gwybodaeth gyda phobl ifanc ar draws ardal wledig eang iawn. Mae ymdeimlad o berchenogaeth gan bobl ifanc yn cael ei hyrwyddo, ac arweinia hyn at fwy o gyfranogiad.

System Asesu ar gyfer Timau Gwasanaethau Ieuenctid (ASSYST)

Mae ASSYST yn brosiect sy'n cael ei gynnal gan Wasanaeth Ieuenctid awdurdod lleol. Ei nod yw cynnwys pobl ifanc wrth fesur effaith ac ansawdd gwasanaethau. Mae'n rhoi pobl ifanc wrth wraidd ei broses arfarnu gwasanaethau. Mae ASSYST wedi datblygu yn broses arolygu leol.

Yn dilyn proses hyfforddi fanwl, mae pobl ifanc yn ymweld â phrosiectau gwasanaethau ieuenctid ac yn llunio barnau ar nodweddion da a meysydd i'w gwella. Mae pobl ifanc yn cynllunio ac yn cynnal yr arolygiad, gan gynnwys ymweliadau dilynol i adolygu cynlluniau gweithredu ôl-arolygiad.

Mae pobl ifanc yn aeddfed ac yn hyderus, ac awgrymant strategaethau i staff er mwyn gwella cyfranogiad. Mae'r prosiect yn galluogi pobl ifanc i lunio barnau, i gymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u gwasanaethau eu hunain, i gynorthwyo eraill ac i wneud dewisiadau. Mae'r broses a'i chanlyniadau yn anfon negeseuon pwysig at bob aelod o staff a phobl ifanc am gyfranogiad a gwella ansawdd. Mae'r broses arfarnu sy'n cael ei harwain gan bobl ifanc yn effeithiol o ran cynyddu

ymwybyddiaeth pobl ifanc a'u disgwyliadau o wasanaethau cymorth ieuenctid, yn ogystal â gwella safonau cyflwyno.

Etholiadau cyngor yr ysgol

Mewn un ysgol lle mae cyfranogiad wedi'i wreiddio'n gadarn yn y diwylliant, mae etholiadau ystyrlon cyngor yr ysgol yn cael eu cynnal. Mae pobl ifanc yn cynrychioli'u dosbarth a gweithiant yn dda ar draws ffiniau blwyddyn. Nid oes uwch aelod o staff yn bresennol mewn cyfarfodydd o gyngor yr ysgol, ac mae'r agenda'n cael ei phennu gan y disgyblion. Rhoddir cryn ymreolaeth i'r cyngor o ran y modd y mae'n rhedeg, ac mae'r pennaeth yn cael adborth anffurfiol yn gyson gan y cadeirydd.

Mae nifer o bobl ifanc yn defnyddio'r profiadau a geir i wneud cynnydd mewn meysydd gwaith eraill, fel y senedd ieuenctid genedlaethol. Mae dau ddisgybl Blwyddyn 13 yn eistedd fel llywodraethwyr cyswllt ar y corff llywodraethol llawn, a chânt fynediad i'r holl bapurau gan gynnwys cyllidebau a'r cynllun cyflwyno gwasanaethau. Mae pobl ifanc yn ymwneud yn weithredol â sefydlu blaenoriaethau, ac maent wedi bod yn gysylltiedig â llunio rhestrau byr ar gyfer penodiadau addysgu newydd.

Trwy ymwneud â chyngor yr ysgol, mae pobl ifanc yn dysgu medrau pwysig fel cyd-drafod, gwneud penderfyniadau, blaenoriaethu a chyfathrebu'n effeithiol.

Grŵp cymorth i bobl ifanc â Diabetes

Mae pobl ifanc 11-18 oed yn gweithio mewn partneriaeth â'r ymddiriedolaeth iechyd. Mae ganddynt ran weithredol wrth wella'r ddarpariaeth i bobl ifanc â diabetes. Mae grŵp cymorth yn cynnwys pobl ifanc mewn amrywiaeth o ffyrdd cadarnhaol. Ffurfiwyd y grŵp mewn ymateb uniongyrchol i gais gan fforwm diabetes i bobl ifanc.

Mae'r bobl ifanc wedi datblygu llenyddiaeth ar gyfer pobl ifanc yn ymwneud â chyflwr eu hiechyd. Hefyd, mae'r bobl ifanc wedi cynyddu ymwybyddiaeth o ddiabetes ymhlith eu cyd-ddisgyblion, eu hathrawon a gweithwyr cymorth trwy roi hyfforddiant ymwybyddiaeth a mynychu cynadleddau cenedlaethol. Mae'r bobl ifanc wedi cynghori ymddiriedolaeth y GIG hefyd ar ailstrwythuro'r ddarpariaeth i bobl ifanc mewn clinigau.

Cyngor Ieuenctid

Saith mlynedd yn ôl, sefydlodd grŵp o bobl ifanc gyngor ieuenctid sy'n adlewyrchu'r modd yr oedd eu hawdurdod lleol yn gweithio. Etholwyd maer ieuenctid ganddynt. Cafodd y maer ei recriwtio drwy ddefnyddio blychau pleidleisio mewn bwyty bwyd cyflym. Roedd hyn yn fodd o sicrhau bod pobl ifanc o amrywiaeth o gefndiroedd yn cael eu cynnwys. Hefyd, cysylltwyd â phobl ifanc o'r fforwm plant sy'n derbyn gofal, clybiau ieuenctid, ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a phrosiectau tai.

Cydnabu'r cyngor ieuenctid wedyn bod angen iddynt ehangu'u sylfaen a bod angen iddynt weithredu yn y gymuned leol. Felly, cyflogwyd gweithwyr gan y cyngor ieuenctid i hyrwyddo fforymau ieuenctid lleol ym mhob un o ardaloedd y cymoedd.

Wrth i'r Bartneriaeth Pobl Ifanc gael ei sefydlu, daeth cyfle arall i gryfhau cyfranogiad pobl ifanc. Mae'r bartneriaeth wedi gallu dylanwadu ar sefydliadau ac adrannau nad ydynt yn draddodiadol yn gweithio gyda phobl ifanc. Mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth i weithio ar draws cyfarwyddiaethau, ac mae gweithwyr proffesiynol eraill bellach yn ymgynghori â phobl ifanc am y tro cyntaf.

Mae cefnogaeth wleidyddol leol i'r cyngor ieuenctid yn hanfodol o ran mynd â'r prosiect yn ei flaen. Mae enwau'r meiri ieuenctid yn cael eu harddangos ar fwrdd yn siambr y cyngor. Rhydd hyn gymeradwyaeth swyddogol i'r cyngor ieuenctid, a dengys gefnogaeth gyhoeddus i ddelfrydau pobl ifanc. Datblygodd y cyngor ieuenctid yn gyflym ac roedd yn ddylanwadol, hyd yn oed yn ei ddyddiau cynnar. Fodd bynnag, wrth i bobl ifanc symud ymlaen, cafodd y fforwm anhawster i gynnal ei hun ar brydiau.

Mae cryfder y cyngor ieuenctid a'i brosesau yn ei hyblygrwydd a'i barodrwydd i addasu i newidiadau polisi ac anghenion pobl ifanc.

Modelu

Fe wnaeth un grŵp o bobl ifanc a oedd yn rhan o ymgynghoriad ar welliannau i MUGA[12] a pharc sglefrio ddefnyddio modelau i ddangos eu syniadau. Cymerodd pobl ifanc ran mewn ymarferiad modelu lle cafodd deunyddiau wedi'u hailgylchu eu defnyddio i wneud eu dyluniadau eu hunain ar gyfer y MUGA, ac i gyfrannu syniadau i wella'r cyfleuster. Cynhyrchodd y bobl ifanc amrywiaeth o arteffactau a lluniadau i'w cyflwyno i'r gymuned leol am y math o gyfleusterau yr oeddent yn dymuno'u gweld.

Roedd y cerfluniau'n adlewyrchu anghenion gwahanol y bobl ifanc a'u gwnaeth. Roedd nifer o bobl ifanc yn awyddus i gael cyfarpar ar gyfer gweithgareddau, fel rampiau a bariau sglefrio. Roedd rhai eraill yn modelu ardaloedd eistedd, mannau tawel a biniau. Cyfrannodd y bobl ifanc syniadau at wella'u cymuned, a chyflwynwyd tystiolaeth ganddynt o'r modd y byddent yn hoffi gweld y prosiect yn symud ymlaen.

Roedd y bobl ifanc o'r farn bod yr ymarferiad ymgynghori yn ddefnyddiol iawn gan ei fod wedi'u helpu i gyfrannu syniadau am eu cymuned, a'r modd i'w gwella, mewn ffordd a wnaeth iddynt deimlo'n hyderus. Bu'r broses yn fodd i alluogi pobl ifanc i ddylanwadu ar bobl ifanc eraill i ymddwyn yn gadarnhaol.

Cylchlythyr

Mae un gwasanaeth ieuenctid awdurdod lleol yn datblygu gwasanaeth gwybodaeth gwell i bobl ifanc. Un elfen o hyn yw'r cylchlythyr Cyfranogiad Ieuenctid, ac mae un eisoes wedi'i gyhoeddi. Nod y cylchlythyr yw rhoi gwybodaeth i bobl ifanc am gyfleoedd i gyfranogi a dylanwadu ar wasanaethau. Mae hwn yn gylchlythyr deniadol, dwyieithog, addysgiadol a phroffesiynol.

[12] Ardal Gemau Aml-ddefnydd

Chwaraeon a phobl ifanc anabl

Mae pobl ifanc anabl (dyspracsia, adhd[13], anawsterau dysgu a namau ar y synhwyrau) yn cyfranogi mewn prosiect gyda Chynorthwywyr Cymorth Dysgu, Cymorth Teulu, y Cyngor Chwaraeon a ffisiotherapyddion. Ar ddechrau pob tymor, mae pobl ifanc yn gweithio gyda staff i nodi'u nodau dysgu eu hunain a pha weithgareddau y byddant yn cymryd rhan ynddynt i gyflawni'u nodau. Mae enghreifftiau o nodau dysgu yn cynnwys hyblygrwydd, trin pêl neu fod yn agored i agosrwydd corfforol ar gyfer chwaraeon cyffwrdd. Mae'r bobl ifanc yn gwneud cyfraniad cadarnhaol, ac yn rhoi gwybodaeth i staff sy'n cael ei hystyried ar ddiwedd bob tymor.

[13] Anhwylder Gorfywiogrwydd Diffyg Canolbwyntio